CYNULLIAD CENEDLAETHOL CYMRU

OFFERYNNAU STATUDOL

2003 Rhif 2676 (Cy.258)

LLYWODRAETH LEOL, CYMRU

Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Lwfansau i Aelodau Cynghorau Sir a Chynghorau Bwrdeistref Sirol) (Dyfarndaliadau am Wasanaeth a Roddwyd) (Cymru) 2003

NODYN ESBONIADOL

(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)

Mae adran 18(3A) o Ddeddf Llywodraeth Leol a Thai 1989, fel y'i mewnosodwyd gan adran 99(7) o Ddeddf Llywodraeth Leol 2000 ("Deddf 2000"), yn darparu'r pŵer i'r Ysgrifennydd Gwladol wneud rheoliadau. Caiff y rheoliadau hynny wneud darpariaeth ar gyfer neu mewn cysylltiad â galluogi cynghorau sir a chynghorau bwrdeistref sirol i benderfynu pa rai o'u haelodau sydd â hawl i arian rhodd. Mae adran 18(3A) yn arferadwy gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru yn rhinwedd Gorchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999. Mae adran 13(3)(a) o Ddeddf 2000 yn caniatáu i Gynulliad Cenedlaethol Cymru wneud darpariaeth bod unrhyw un o swyddogaethau awdurdod lleol sydd wedi'i phennu mewn rheoliadau a wnaed o dan yr adran honno yn swyddogaeth nad yw gweithrediaeth i fod yn gyfrifol amdani o dan drefniadau gweithrediaeth. Mae adran 32 o Ddeddf 2000 yn caniatáu i ddiwygiadau cyffelyb gael eu gwneud ynglŷn â chynghorau sy'n gweithredu "trefniadau amgen" gyda Bwrdd yn hytrach na gweithrediaeth.

Mae Rheoliad 3 yn galluogi cynghorau sir a chynghorau bwrdeistref sirol yng Nghymru i benderfynu pa aelodau (sydd yn gynghorwyr) sydd â hawl i arian rhodd (a elwir "dyfarndaliadau am

NATIONAL ASSEMBLY FOR WALES

STATUTORY INSTRUMENTS

2003 No. 2676 (W.258)

LOCAL GOVERNMENT, WALES

The Local Authorities (Allowances for Members of County and County Borough Councils) (Past Service Awards) (Wales) Regulations 2003

EXPLANATORY NOTE

(This note is not part of the Regulations)

Section 18(3A) of the Local Government and Housing Act 1989, as inserted by section 99(7) of the Local Government Act 2000 ("the 2000 Act"), provides the power for the Secretary of State to make regulations which may make provision for or in connection with enabling county and county borough councils to determine which of their members are entitled to gratuities. Section 18(3A) is exercisable by the National Assembly for Wales by virtue of the National Assembly for Wales (Transfer of Functions) Order 1999. Section 13(3)(a) of the 2000 Act allows the National Assembly for Wales to make provision for any function of a local authority specified in regulations made under that section to be a function which is not to be the responsibility of an executive under executive arrangements. Section 32 of the 2000 Act permits the making of like amendments in respect of councils operating "alternative arrangements" with a Board rather than an executive.

Regulation 3 enables county and county borough councils in Wales to determine which members (who are councillors) are entitled to gratuities (known in these Regulations as "past service awards") in

wasanaeth a roddwyd" yn y Rheoliadau hyn) yn unol â rheoliadau a wneir o dan adran 7 o Ddeddf Taliadau Pensiwn 1972.

Mae Rheoliad 3 yn galluogi awdurdodau i benderfynu pa aelodau sydd â hawl i ddyfarndaliadau am wasanaeth a roddwyd, yn ddarostyngedig i'r meini prawf cymhwyster yn Rheoliad 4.

Mae Rheoliad 4 yn mynnu bod rhaid i awdurdodau, wrth benderfynu cymhwyster aelodau ar gyfer dyfarndaliadau am wasanaeth a roddwyd:

- ei gwneud yn ofynnol bod yr aelod wedi treulio'r cyfnod cymhwyso a benderfynir gan y cyngor sef cyfnod nad yw'n llai na 15 mlynedd o wasanaeth erbyn 9 Mai 2003;
- ei gwneud yn ofynnol bod yr aelod yn gwneud cais ysgrifenedig i Bennaeth y Gwasanaeth Cyflogedig erbyn y dyddiad a benderfynir gan yr awdurdod a hwnnw'n ddyddiad nad yw'n hwyrach na phum wythnos ar ôl i'r Rheoliadau hyn ddod i rym;
- ei gwneud yn ofynnol bod yr aelod yn aelod etholedig o'r awdurdod hwnnw ar y diwrnod sy'n dilyn y diwrnod olaf ar gyfer enwebiadau ar gyfer etholiad cyffredin cynghorwyr cynghorau sir a chynghorau bwrdeistref sirol yn 2004;
- sicrhau, cyn talu dyfarndal am wasanaeth a roddwyd, na wnaeth yr aelod sefyll yn etholiadau 2004 ar gyfer siroedd a bwrdeistrefi sirol ar ôl gwneud cais i Bennaeth y Gwasanaeth Cyflogedig am ddyfarndal o'r fath; a
- sicrhau nad yw'r aelod hefyd yn aelod o Gynulliad Cenedlaethol Cymru, Tŷ'r Cyffredin, Tŷ'r Arglwyddi neu Senedd Ewrop.

Mae Rheoliad 5 yn ei gwneud yn ofynnol bod rhaid i awdurdod wrth gyfrifo unrhyw gyfnod cymhwyso gymryd i ystyriaeth unrhyw wasanaeth blaenorol (ond heb gynnwys cyfnodau atal) gan gynnwys gwasanaeth pan oedd aelod yn aelod o unrhyw awdurdod Cymreig cyn 1 Ebrill 1996 (heb gynnwys cynghorau plwyf, cynghorau tref a chynghorau cymuned). Pan fydd gan aelod gyfnodau o wasanaeth cyn 1996 gyda mwy nag un awdurdod, a'i fod wedi treulio'r cyfnodau gwasanaeth hynny ar yr un pryd, dim ond gwasanaeth gydag un o'r awdurdodau hynny y caniateir ei ddefnyddio wrth gyfrifo unrhyw gyfnod cymhwyso. Wrth gyfrifo unrhyw gyfnod cymhwyso ar gyfer gwasanaeth gydag awdurdod a oedd yn bodoli cyn 1996, ac y daeth ei fodolaeth i ben ar 31 Mawrth 1996, bernir mai un flwyddyn o wasanaeth yw'r cyfnod o wasanaeth o Fai 1995 tan Fawrth 1996 oni bai yr oedd aelod hefyd yn aelod o awdurdod ar 1 Ebrill 1996.

Mae Rheoliad 6 yn diwygio Rheoliadau Trefniadau Gweithrediaeth Awdurdodau Lleol (Swyddogaethau a Chyfrifoldebau) (Cymru) 2001 ("Rheoliadau

accordance with regulations made under section 7 of the Superannuation Act 1972.

Regulation 3 enables authorities to determine which members are entitled to past service awards, subject to eligibility criteria in Regulation 4.

Regulation 4 requires that authorities, in determining eligibility of members for past service awards, must:

- require the member have served such qualifying period as the council may determine being not less than 15 years service by 9th May 2003;
- require the member makes a written application to the Head of Paid Service by such date as the authority may determine being not later than five weeks after the coming into force of these Regulations;
- require the member is an elected member of that authority on the day following the final day for nominations for the ordinary election of councillors of county and county borough councils in 2004;
- ensure that, prior to payment of a past service award, a member did not stand in the 2004 county and county borough elections after making application to the Head of Paid Service for such an award; and
- ensure that the member is not also a member of the National Assembly for Wales, the House of Commons, House of Lords or the European Parliament.

Regulation 5 requires that in calculating any qualifying period an authority must take account of any previous service (but excluding periods of suspension) including service when a member was a member of any Welsh authority prior to 1st April 1996 (excluding parish, town and community councils). Where a member has periods of service pre-1996 with more than one authority and those periods of service were served concurrently, only service with one of those authorities may be used in calculating any qualifying period. In calculating any qualifying period in respect of service with a pre-1996 authority, which ceased to exist on 31st March 1996, the period of service from May 1995 to March 1996 is deemed to be one year's service unless a member was also a member of a successor authority on 1st April 1996.

Regulation 6 amends the Local Authorities Executive Arrangements (Functions and Responsibilities) (Wales) Regulations 2001 ("the 2001

Trefniadau Gweithrediaeth 2001"). Mae Rhan II o Ddeddf 2000 yn darparu bod swyddogaethau awdurdod lleol yn cael eu cyflawni gan weithrediaeth awdurdod oni bai bod y swyddogaethau hynny wedi'u pennu'n swyddogaethau nad yw gweithrediaeth yr awdurdod i fod yn gyfrifol amdanynt. Mae'r Rheoliadau hyn yn sicrhau mai un o swyddogaethau'r cyngor fydd y cyfrifoldeb dros benderfynu pa aelodau fydd â hawl i gael dyfarndaliadau am wasanaeth a roddwyd, ac maent yn gwneud hynny drwy ddiwygio Rheoliadau Trefniadau Gweithrediaeth 2001.

Executive Arrangements Regulations"). Part II of the 2000 Act provides for the discharge of a local authority's functions by an authority's executive unless those functions are specified as functions not to be the responsibility of the authority's executive. These Regulations ensure that the responsibility for determining which members are entitled to past service awards is a function of the council, by amending the 2001 Executive Arrangements Regulations.

Mae Rheoliad 7 yn diwygio Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Trefniadau Amgen) (Cymru) 2001 mewn ffordd debyg i'r diwygiad sy'n cael ei wneud drwy Reoliad 6. Mae effaith Rheoliad 7 fel a ganlyn: pan fydd cyngor yn gweithredu "trefniadau amgen" yn unol â Rhan II o Ddeddf 2000, nid yw'r cyfrifoldeb dros benderfynu pa aelodau sydd â hawl i gael dyfarndaliadau am wasanaeth a roddwyd yn un o swyddogaethau'r Bwrdd ond yn hytrach yn fater i'r cyngor.

Regulation 7 amends the Local Authorities (Alternative Arrangements) (Wales) Regulations 2001 in a similar manner to the amendment made by Regulation 6. The effect of Regulation 7 is such that where a council operates "alternative arrangements" in accordance with Part II of the 2000 Act the responsibility for determining which members are entitled to past service awards is not a function of the Board but a matter for the council.

Mae Rheoliadau 6 a 7 yn peri bod diwygiadau yn cael eu gwneud hefyd, sef diwygiadau a fydd yn golygu bod swyddogaethau sy'n ymwneud â phensiynau a lwfansau mewn perthynas â rheoliadau a wnaed o dan adran 18(3A) o Ddeddf Llywodraeth Leol a Thai 1989 yn swyddogaethau nad oes modd i weithrediaeth na Bwrdd cyngor (fel y bo'n briodol) ymdrin â hwy a bod rhaid iddynt fod yn fater i'r cyngor.

Regulations 6 and 7 also effect amendments which mean that functions in relation to pensions and allowances in respect of regulations made under section 18(3A) of the Local Government and Housing Act 1989 are functions that cannot be dealt with by the executive or the Board of a council (as appropriate) and must be a matter for the council.

OFFERYNNAU STATUDOL

2003 Rhif 2676 (Cy.258)

LLYWODRAETH LEOL, CYMRU

Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Lwfansau i Aelodau Cynghorau Sir a Chynghorau Bwrdeistref Sirol) (Dyfarndaliadau am Wasanaeth a Roddwyd) (Cymru) 2003

Wedi'u gwneud	*15 Hydref 2003*
Yn dod i rym	*16 Hydref 2003*

Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn gwneud y Rheoliadau canlynol drwy arfer y pwerau a roddwyd i'r Ysgrifennydd Gwladol gan adran 18(3A) o Ddeddf Llywodraeth Leol a Thai 1989(**a**) ac sydd yn arferadwy yn rhinwedd Gorchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999(**b**) i'r graddau y maent yn arferadwy yng Nghymru, a'r pwerau a roddwyd iddo gan adrannau 13, 32, 105 a 106 o Ddeddf Llywodraeth Leol 2000(**c**).

Enwi, cychwyn a chymhwyso

1.-(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Lwfansau i Aelodau Cynghorau Sir a Chynghorau Bwrdeistref Sirol) (Dyfarndaliadau am Wasanaeth a Roddwyd) (Cymru) 2003 a deuant i rym ar 16 Hydref 2003.

(2) Mae'r Rheoliadau hyn yn gymwys i Gymru yn unig.

Dehongli

2. Yn y Rheoliadau hyn -

ystyr "awdurdod" ("*authority*") yw cyngor sir neu gyngor bwrdeistref sirol yng Nghymru;

ystyr "awdurdod rhagflaenol" ("*predecessor*

(a) p. 42. Mewnosodwyd adran 18(3A) o Ddeddf Llywodraeth Leol a Thai 1989 gan adran 99(7) o Ddeddf Llywodraeth Leol 2000.

(b) O.S. 1999/672.

(c) p. 22.

STATUTORY INSTRUMENTS

2003 No. 2676 (W.258)

LOCAL GOVERNMENT, WALES

The Local Authorities (Allowances for Members of County and County Borough Councils) (Past Service Awards) (Wales) Regulations 2003

Made	*15th October 2003*
Coming into force	*16th October 2003*

The National Assembly for Wales makes the following Regulations in exercise of the powers conferred on the Secretary of State by section 18(3A) of the Local Government and Housing Act 1989(**a**) which are exercisable by virtue of the National Assembly for Wales (Transfer of Functions) Order 1999(**b**) so far as exercisable in Wales and the powers given to it by sections 13, 32, 105 and 106 of the Local Government Act 2000(**c**).

Name, commencement and application

1.-(1) These Regulations are called the Local Authorities (Allowances for Members of County and County Borough Councils) (Past Service Awards) (Wales) Regulations 2003 and they shall come into force on 16th October 2003.

(2) These Regulations apply to Wales only.

Interpretation

2. In these Regulations -

"the 1972 Act" ("*Deddf 1972*") means the Superannuation Act 1972(**d**);

"authority" ("*awdurdod*") means a county council or a county borough council in Wales;

(a) c.42. Section 18(3A) of the Local Government and Housing Act 1989 was inserted by section 99(7) of the Local Government Act 2000.

(b) S.I. 1999/672.

(c) c.22.

(d) c.11.

authority") yw unrhyw awdurdod lleol a oedd yn bodoli yng Nghymru cyn 1 Ebrill 1996 ac nad oedd yn gyngor plwyf, yn gyngor tref nac yn gyngor cymuned;

ystyr "cyfnod cymhwyso" ("*qualifying period*") yw'r cyfnod amser y mae'r awdurdod yn penderfynu mai hwnnw yw'r cyfnod y mae'n rhaid i aelod fod wedi bod yn aelod etholedig o awdurdod neu awdurdod rhagflaenol yng Nghymru i gymhwyso ar gyfer dyfarndal am wasanaeth a roddwyd a hwnnw'n gyfnod nad yw'n llai na phymtheng mlynedd erbyn 9 Mai 2003;

ystyr "Deddf 1972" ("*the 1972 Act*") yw Deddf Blwydd-daliadau 1972(**a**);

ystyr "dyfarndal am wasanaeth a roddwyd" ("*past service award*") yw rhodd arian yn unol â rheoliadau a wneir o dan adran 7 o Ddeddf 1972.

"past service award" ("*dyfarndal am wasanaeth a roddwyd*") means a gratuity in accordance with regulations made under section 7 of the 1972 Act;

"predecessor authority" ("*awdurdod rhagflaenol*") means any local authority in existence in Wales prior to 1st April 1996 not being a parish, town or community council;

"qualifying period" ("*cyfnod cymhwyso*") means that period of time which an authority determines as the period for which a member must have been an elected member of an authority or a predecessor authority in Wales to qualify for a past service award being a period of not less than fifteen years by 9th May 2003.

Dyfarndaliadau am wasanaeth a roddwyd

3. Yn ddarostyngedig i Reoliad 4 caiff awdurdod benderfynu pa aelodau o'r awdurdod hwnnw, a'r rheini'n gynghorwyr yr awdurdod hwnnw, sydd â hawl i ddyfarndal am wasanaeth a roddwyd.

Hawl i ddyfarndaliadau am wasanaeth a roddwyd

4. Wrth benderfynu pa aelodau sydd â hawl i ddyfarndal am wasanaeth a roddwyd yn unol â Rheoliad 3 rhaid i awdurdod -

(a) ei gwneud yn ofynnol bod aelod wedi treulio cyfnod cymhwyso;

(b) ei gwneud yn ofynnol bod rhaid i aelod wneud cais ysgrifenedig i Bennaeth y Gwasanaeth Cyflogedig am ddyfarndal am wasanaeth a roddwyd erbyn y dyddiad a benderfynir gan yr awdurdod a hwnnw'n ddyddiad nad yw'n hwyrach na phum wythnos ar ôl i'r Rheoliadau hyn ddod i rym;

(c) ei gwneud yn ofynnol bod yr aelod yn aelod etholedig o'r awdurdod hwnnw ar y diwrnod sy'n dilyn y diwrnod olaf ar gyfer enwebiadau ar gyfer etholiad cyffredin cynghorwyr awdurdodau yn 2004;

(ch) sicrhau cyn iddo dalu dyfarndal am wasanaeth a roddwyd i aelod a gyflwynodd gais yn unol â pharagraff (b) ei fod wedi'i fodloni nad yw'r aelod ar ôl hynny wedi sefyll etholiad yn etholiadau 2004 ar gyfer awdurdodau; a

(d) sicrhau nad yw'r aelod hefyd yn aelod o Gynulliad Cenedlaethol Cymru, Tŷ'r Cyffredin, Tŷ'r Arglwyddi neu Senedd Ewrop.

Past service awards

3. Subject to Regulation 4 an authority may determine which members of that authority, who are councillors of that authority, are entitled to a past service award.

Entitlement to past service awards

4. In determining which members are entitled to a past service award in accordance with Regulation 3 an authority must -

(a) require that a member has served a qualifying period;

(b) require that a member must make written application to the Head of Paid Service for a past service award by such date as may be determined by the authority being not later than five weeks after the coming into force of these Regulations;

(c) require that the member is an elected member of that authority on the day following the final day for nominations for the ordinary election of councillors of authorities in 2004;

(d) ensure that before making payment of a past service award to a member having made application in accordance with paragraph (b) it is satisfied that the member did not subsequently stand for election in the 2004 elections for authorities; and

(e) ensure that the member is not also a member of the National Assembly for Wales, House of Commons, the House of Lords or the European Parliament.

(a) p.11.

Cyfrifo'r cyfnod cymhwyso

5. -(1) Wrth gyfrifo unrhyw gyfnod cymhwyso yn unol â Rheoliad 4(a) rhaid i awdurdod, yn ddarostyngedig i'r cyfyngiadau a bennir ym mharagraff (2), gymryd i ystyriaeth unrhyw gyfnodau o wasanaeth blaenorol p'un a oedd y cyfnodau hynny o wasanaeth blaenorol gyda'r awdurdod, unrhyw awdurdod arall neu unrhyw awdurdod rhagflaenol.

(2) Mae'r cyfyngiadau y cyfeiriwyd atynt ym mharagraff (1) fel a ganlyn -

(a) nid yw cyfnodau gwahardd dros dro i'w hystyried yn gyfnodau gwasanaeth;

(b) pan fydd cyfnodau o wasanaeth blaenorol gydag awdurdod rhagflaenol wedi'u treulio ar yr un pryd â mwy nag un awdurdod o'r fath, dim ond gwasanaeth gydag un gwasanaeth o'r fath sydd i'w gymryd i ystyriaeth.

(3) Wrth gyfrifo unrhyw gyfnod cymhwyso yn unol â Rheoliad 4(a) pan oedd y gwasanaeth yn wasanaeth gydag awdurdod rhagflaenol y daeth ei fodolaeth i ben ar 31 Mawrth 1996, bernir mai un flwyddyn o wasanaeth yw'r cyfnod o wasanaeth o Fai 1995 tan 31 Mawrth 1996 ac eithrio yn achos aelod a oedd hefyd yn aelod o awdurdod ar 1 Ebrill 1996.

Diwygio Rheoliadau

6. Ym mharagraff F o Atodlen 1 i Reoliadau Trefniadau Gweithrediaeth Awdurdodau Lleol (Swyddogaethau a Chyfrifoldebau) (Cymru) 2001(**a**) (Swyddogaethau sy'n ymwneud â phensiynau etc.) ychwanegir -

(a) yng ngholofn (1) ar ôl 1 -

"1A. Swyddogaethau sy'n ymwneud â phensiynau, lwfansau ac arian rhodd; a"; a

(b) yng ngholofn (2), o ran y cofnod yng ngholofn 1 ar gyfer eitem 1A -

"Rheoliadau o dan adran 18(3A) o Ddeddf Llywodraeth Leol a Thai 1989 (p.42);"(**b**).

7. Ym mharagraff F o Atodlen 1 i Reoliadau Awdurdodau Lleol (Trefniadau Amgen) (Cymru) 2001(**c**) (Swyddogaethau sy'n ymwneud â phensiynau etc.) ychwanegir -

(a) yng ngholofn (1) ar ôl 1 -

"1A. Swyddogaethau sy'n ymwneud â phensiynau, lwfansau ac arian rhodd; a"; a

(b) yng ngholofn (2), o ran y cofnod yng ngholofn 1 ar gyfer eitem 1A -

"Rheoliadau o dan adran 18(3A) o Ddeddf Llywodraeth Leol a Thai 1989 (p.42);"(**ch**).

(a) O.S. 2001/2291 (Cy. 179).

(b) 1989 p.42.

(c) O.S. 2001/2284 (Cy. 173).

(ch) 1989 p.42.

Calculation of qualifying period

5.-(1) In calculating any qualifying period in accordance with regulation 4(a) an authority must, subject to the limitations specified in paragraph (2), take account of any periods of previous service whether any such periods of previous service were with the authority, any other authority or any predecessor authority.

(2) The limitations referred to in paragraph (1) are -

(a) periods of suspension are not to be regarded as periods of service;

(b) where periods of previous service with a predecessor authority have been served concurrently with more than one such authority, it is only service with one such authority that is to be taken into account.

(3) In calculating any qualifying period in accordance with Regulation 4(a) where service was with a predecessor authority which ceased to exist on 31st March 1996 the period of service from May 1995 to 31st March 1996 is deemed to be one year's service except in the case of a member who was also a member of an authority on 1st April 1996.

Amendment of Regulations

6. In paragraph H of Schedule 1 to the Local Authorities Executive Arrangements (Functions and Responsibilities) (Wales) Regulations 2001(**a**) (Functions relating to pensions etc.) there is added-

(a) in column (1) after 1 -

"1A. Functions relating to pensions, allowances and gratuities; and"; and

(b) in column (2), in relation to the entry in column 1 for item 1A -

"Regulations under section 18(3A) of the Local Government and Housing Act 1989 (c.42);"(**b**).

7. In paragraph H of Schedule 1 to the Local Authorities (Alternative Arrangements) (Wales) Regulations 2001(**c**) (Functions relating to pensions etc.) there is added -

(a) in column (1) after 1 -

"1A. Functions relating to pensions, allowances and gratuities; and"; and

(b) in column (2), in relation to the entry in column 1 for item 1A -

"Regulations under section 18(3A) of the Local Government and Housing Act 1989 (c.42);"(**d**).

(a) S.I. 2001/2291 (W.179).

(b) 1989 c.42.

(c) S.I. 2001/2284 (W.173).

(d) 1989 c.42.

Llofnodwyd ar ran Cynulliad Cenedlaethol Cymru o dan adran 66(1) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998(**a**)

15 Hydref 2003

Signed on behalf of the National Assembly for Wales under section 66(1) of the Government of Wales Act 1998(**a**)

15th October 2003

D. Elis-Thomas

Llywydd y Cynulliad Cenedlaethol

The Presiding Officer of the National Assembly

(a) 1998 p.38.

(a) 1998 c.38.

OFFERYNNAU STATUDOL

STATUTORY INSTRUMENTS

2003 Rhif 2676 (Cy.258)

LLYWODRAETH LEOL, CYMRU

Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Lwfansau i Aelodau Cynghorau Sir a Chynghorau Bwrdeistref Sirol) (Dyfarndaliadau am Wasanaeth a Roddwyd) (Cymru) 2003

2003 No. 2676 (W.258)

LOCAL GOVERNMENT, WALES

The Local Authorities (Allowances for Members of County and County Borough Councils) (Past Service Awards) (Wales) Regulations 2003

©℗ Hawlfraint y Goron 2003

Argraffwyd a chyhoeddwyd yn y Deyrnas Unedig gan The Stationery Office Limited o dan awdurdod ac arolygiaeth Carol Tullo, Rheolwr Gwasg Ei Mawrhydi ac Argraffydd Deddfau Seneddol y Frenhines.

© Crown copyright 2003

Printed and Published in the UK by the Stationery Office Limited under the authority and superintendence of Carol Tullo, Controller of Her Majesty's Stationery Office and Queen's Printer of Acts of Parliament.

ISBN 0-11-090797-3

9 780110 907970

£2.00

W172/10/03